



YMUNWCH Â NI

**YMARFERYDD DIOGELWCH
CYMUNEDOL – MYFYRIO
PECYN GWYBODAETH I**



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

PWY YDYM NI

DEWRDER I WEITHREDU, TRUGAREDD I OFALU

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd sy'n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru'n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda'r rhan fwyaf o'n staff corfforaethol wedi'u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Ein gweledigaeth

Cydweithio fel un tîm i fod yn Wasanaeth Tân ac Achub rhagorol, gan amddiffyn De Cymru heddiw, ac arloesi'n uchelgeisiol ar gyfer yfory.

Ein cenhadaeth

Gwasanaethu ein cymunedau, trwy leihau risg ac ymateb i argyfyngau.

Ein gwerthoedd

Datblygwyd ein gwerthoedd yn dilyn ymghoriad helaeth â'n pobl. Maent yn darparu'r fframwaith gytunedig i **NI** allu gwasanaethu ac amddiffyn **EIN** cymunedau'n effeithiol yn Ne Cymru. Dyma nhw: **Tosturi, Dewrder, Parch, Uniondeb a Rhagoriaeth.**



Rydym yn gweithredu gyda **thosturi**



Rydym yn defnyddio **dewrder** maesegol a chorfforol wrth ymdrin â sefyllfaoedd



Rydym yn **parchu** ein gilydd, ein partneriaid a'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu



Rydym yn gweithredu gydag **uniondeb**



Rydym yn anelu at **ragoriaeth** ym mhopeth a wnawn

PROFFIL SWYDD

Gwnewch gais erbyn: 12:00, hanner dydd ar 1 Medi 2025

Mae'r swydd wag uchod wedi codi yn yr Adrannau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau (DC&P) ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm bach ac yn cynorthwyo i ddatblygu, cynllunio, cydgysylltu a chyflwyno ystod o wahanol ymyriadau ieuenctid ledled ardal gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gamu i rôl brysur, gan gyflawni mewn lleoliadau amrywiol. Bydd y gwaith yn cynnwys trefnu, monitro a darparu ymyriadau diogelwch tân i unigolion a grwpiau bach i gefnogi diogelwch cymunedol. Er bod y swydd wag bresennol yn eistedd o fewn y Tîm Myfyrio, fel rhan o Ddiogelwch Cymunedol, bydd adegau pan fydd yn bosibl y bydd angen i'r ymarferydd gynorthwyo mewn meysydd eraill o Ddiogelwch Cymunedol.

Mae'r rôl yn cynnwys teithio ledled De Cymru, felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol. Dylai ymgeiswyr feddu ar y cymwysterau cyfredol hyn sef Tystysgrif Lefel 2 Agored Cymru mewn Gwaith Ieuenctid Cymhwyster Ymarfer neu gymhwyster cyfatebol a/neu brofiad perthnasol blaenorol o gyflwyno gwaith ieuenctid.

Mae gallu gweithio dan bwysau, gan ddangos agwedd dawel, hyderus a hyblyg, ac agwedd meddwl agored yn rhagofyniad ar gyfer y swydd. Disgwylir i ymarferwyr gwaith ieuenctid weithio'n agos gydag asiantaethau partner i gael y canlyniadau gorau posibl i'r bobl ifanc a gyfeirir at y prosiect. Byddai profiad o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn fanteisiol.

Mae'r rôl yn gofyn am drin a storio data personol yn gywir. Mae angen dealltwriaeth gynhwysfawr o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â thrin data sensitif.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau'r Cwrs Gweithgaredd Maes Drilio - Diogel i Oruchwylio ar ddechrau'r rôl.

Ceir gwybodaeth bellach am y prif ymyriadau Gwaith Ieuenctid: Gellir gweld Ffenics, Adlewyrchu a Chadetiaid Tân i'w gweld ar wefan GTADC <https://www.decmru-tan.gov.uk/ieuenctid-addysg/>

Am ragor o wybodaeth am y swydd, mae croeso i chi gysylltu â Nicola Wheten drwy law e-bost: n-wheten@cecymru-tan.gov.uk

- **Cytundeb:** Parhaol
- **Gradd:** 8
- **Cyflog:** £32,597 – £33,699 y flwyddyn
- **Oriau Gwaith:** 37 awr yr wythnos
- **Cyfarwyddiaeth:** Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau
- **Cyfeirnod Swydd:** 502254
- **Lleoliad:** Pencadlys, Llantrisant (gan gynnwys: teithio o gwmpas De Cymru)

SWYDD-DDISGRIFIAD

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

Yn gyfrifol i: Rheolwr Prosiect MYFYRIO

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Cyflawni amcanion ymyriadau ieuenctid GTADC a rheoli dyletswyddau gweinyddol y prosiect yn ôl yr angen.
2. Trefnu a goruchwyllo'r holl weithgareddau mewn amrywiaeth o amgylcheddau h.y. maes ymarfer, ystafell ddosbarth, a safleoedd allanol yn ogystal â chynnal a hyrwyddo amodau gwaith iach, diogel a chynhyrchiol.
3. Nodi ac ymgysylltu ag ystod o asiantaethau partner yn delio â phobl ifanc sy wedi troseddu neu ar fin troseddu.
4. Darparu gwybodaeth ac addysg i'r rhai a nodwyd, a gweithio tuag at leihau'r risg iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau gwrthgymdeithasol a thân.
5. Datblygu, creu, diweddarau a chynnal cronfa ddata o grwpiau y nodwyd eu bod mewn perygl, gan ddadansoddi a gwerthuso'r holl waith a wneir.
6. Cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol ac arfer gorau yn ymwneud â'r pwnc a'u hintegreiddio i'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir. Defnyddiwch y wybodaeth hon i gefnogi datblygu pecynnau adnoddau addysg newydd.
7. Sicrhau bod rheolwyr llinell ac ymarferwyr eraill yn gwybod am gynnydd yr holl ymyriadau.
8. Cynrychioli GTADC ar bwyllgorau mewnol ac allanol yn ogystal â gweithgorau sefydliadau partner.
9. Cefnogi Rheolwyr Gorsaf, yn ogystal â gweithwyr asiantaeth allanol, i nodi grwpiau/meysydd priodol i'w targedu ar gyfer y ddarpariaeth.
10. Bod yn enghraifft gadarnhaol i'r bobl ifanc.
11. Bod yn barod i weithio oriau gwaith hyblyg/anghymdeithasol.
12. Sicrhau bod disgresiwn, sensitifrwydd a chyfrinachedd yn cael eu defnyddio bob amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth.
13. Nodi ac ymdrin â gwrthdaro posibl ymhlith myfyrwyr, gan ymdrin ag ef mewn modd priodol a chadarnhaol.
14. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau gweinyddol perthnasol sy'n gymesur â'r rôl.
15. Unhid ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r swydd a'r raddfa.

TASGAU/SWYDDOGAETHAU ALLWEDDOL

1. Hyrwyddo, cynllunio a chyflawni nodau allweddol Prosiectau GTADC ac addysgu'r gymuned i wella eu hymwybyddiaeth o faterion diogelwch. Codi ymwybyddiaeth o'i fanteision a'i effaith bosibl ar gymunedau De Cymru.
2. Rheoli gweithgareddau tir drilio diogel yn effeithiol a chynnal cymhwysedd goruchwyllo
3. I reoli prosiectau priodol, nodi ac ymgysylltu â'r holl gynulleidfaoedd posibl sydd wedi'u nodi fel troseddwy'r neu ar fin troseddu gan yr asiantaeth briodol.
4. Hyrwyddo lechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch 1999 a deddfwriaeth arall a allai fod yn briodol i sefyllfa waith yr unigolyn. Yn fwy penodol, rhaid i chi gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd a chywiro cyn belled y mae'n rhesymol ymarferol neu adrodd i'r uwch reolwyr, a sefyllfa waith a allai achosi perygl difrifol neu agos. Gellir dod o hyd i ganllawiau mwy penodol ar gyfrifoldebau unigol o dan y Mynegai Gweithdrefnau Sefydliadol, HSGN 2.
5. Cadw i fyny â materion cyfredol ac arferion gorau sy'n ymwneud â'r pwnc ac integreiddio'r rhain i ddarparu gwasanaethau presennol.
6. Cynnal a datblygu perthnasoedd gwaith gydag asiantaethau perthnasol a Staff y Gwasanaeth Tân ac Achub.
7. Cynorthwyo'n rhagweithiol i ddatblygu prosiectau ymyrraeth ieuencid yn barhaus ac i gynorthwyo i ddatblygu rhaglen sy'n gwneud y mwyaf o adnoddau yn unol ag egwyddorion y gwerth gorau.
8. Sicrhau bod disgresiwn, sensitifwydd a chyfrinachedd yn cael eu cymhwyso bob amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau gwasanaeth.
9. Nodi a delio â gwrthdaro posibl ymhlith myfyrwyr, gan ddelio ag ef mewn ffordd briodol a chadarnhaol.
10. Paratoi cyn cyrsiau; Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu cyflwyniadau, paratoi nodiadau cwrs, gwirio offer ac asesu'r risgiau a gynlluniwyd gan weithgareddau.

Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:

1. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen.
2. Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd a'r swydd.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Gweithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Cymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
5. Cadw at Ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol ar gyfer iechyd a diogelwch eich hun a phersonau eraill a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/hepgoriadau. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau lechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

Y FANYLEB PERSON

HANFODOL

- ✓ Tystysgrif Lefel 2 Agored Cymru mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid neu gymhwyster cyfatebol a/neu brofiad perthnasol blaenorol o ddarparu gwaith ieuenctid.
- ✓ Profiad o gyflwyno cyflwyniadau i ystod o wahanol gynulleidfaoedd.
- ✓ Profiad o ymarfer gweithio effeithiol a diogel mewn gwahanol amgylcheddau.
- ✓ Y gallu i gynllunio a goruchwyllo gweithgareddau eraill.
- ✓ Profiad o gymwysiadau Microsoft Office; Word, Excel, Outlook, PowerPoint.
- ✓ Gallu ymateb gyda hyblygrwydd ac addasu arddull cyflwyno gyda grwpiau / unigolion.
- ✓ Y gallu i gynnal agwedd hyderus a gwydn mewn sefyllfaoedd hynod heriol.
- ✓ Y gallu i gofleidio a gwerthfawrogi amrywiaeth, gan ddangos dull teg a moesegol ym mhob sefyllfa.
- ✓ Y gallu i weithio yn cydymffurfio'n llawn â pholisi sefydliadol a chanllawiau deddfwriaethol sy'n parchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir.
- ✓ Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y gymuned.
- ✓ Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- ✓ Ymrwymiad i a gallu i ddatblygu hunan, unigolion, timau ac eraill, i wella effeithiolrwydd sefydliadol.
- ✓ Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol.
- ✓ Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu atebion ymarferol.

DYMUNOL

- ✓ Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**N.B Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio yn aml rhwng safleoedd ledled ardal De Cymru.
Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol**

Y BROSES YMGEISIO

Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen dystiolaeth ar y rhestr fer. Dylai hyn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ateb nad yw'n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (e.e. Uchafswm o 2500 o eiriau)

Cwestiwn 1: Amlinellwch eich profiad perthnasol o gyflwyno gwaith ieuenctid.

Cwestiwn 2: Rhowch dystiolaeth o'ch gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.

Cwestiwn 3: Rhowch dystiolaeth o'ch gallu i gynnal agwedd hyderus a hydwyth mewn sefyllfaoedd heriol iawn.

Cwestiwn 4: Disgrifiwch eich profiad o gyflwyno cyflwyniadau i ystod o gynulleidfaoedd gwahanol.

Cwestiwn 5: Amlinellwch eich profiad o arferion gwaith effeithiol a diogel o fewn amrywiol amgylcheddau.

****Sylwch, oherwydd y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwyd, nad ydym yn gallu cynnig adborth unigol yn ystod y cam cynnar hwn o'r broses ddethol, yn anffodus**

Wrth ateb y cwestiynau uchod, ystyriwch ddefnyddio dull megis 'STAR'

Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o ddisgrifio profiadau'r gorffennol ac i strwythuro ateb trwy ystyried y Sefyllfa, y Dasg, y Weithred a'r Canlyniad i arddangos eich cyflawniad yn eglur.

DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

Rydym yn derbyn defnyddio DA i strwythuro eich meddyliau, a gwella eich cais os oes angen, ond gwnewch yn siŵr bod y cais terfynol yn adlewyrchu eich profiad a'ch sgiliau personol.

SUT I YMGEISIO

Ymgeiswyr Allanol

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recrwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Ymgeiswyr Mewnol

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

Pob Ymgeisydd

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recrwtio yn recrwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweiliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gwiriadau Recriwtio Allanol

Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

Cod Moeseg Craidd CCPT

RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF: Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.

UNIONDEB: Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

URDDAS A PHARCH: Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

ARWEINYDDIAETH: Rydym i gyd yn fodelau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD: Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.



Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a champau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill

BUDDION

Gwyliau Blynnyddol – Lwfans gwyliau blynnyddol hael.

Rhaglen Cymorth i Weithwyr - Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

Vivup – Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith**
- **Cynllun ceir Tusker**
- **Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

Oriau Gwaith Hyblyg – Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

Dysgu a Datblygu – Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

Campfa - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.

Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd

Mae ein Hymgyngorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

Elusen Diffoddwyr Tân - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynnyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

Parcio Ceir – Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

Iechyd Galwedigaethol - Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

Pensiwn – Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

Chwaraeon a Chymdeithasol – Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

Cyrsiau Cymraeg – Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig





Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

SCAN ME

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk



www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us

